



# ADRODDIAD GWOBR EFYDD

## SIARTER IAITH CYMRAEG CAMPUS



Ysgol / School	Bro Pedr
Dyddiad / Date	14/07/2017
Swyddog / Officer	Anwen Jones

Mae Ysgol Bro Pedr wedi llwyddo i gyflawni'r targedau o fewn y wobwr efydd yn y Siarter Iaith Cymraeg Campus. Mae cydweithio Ysgol gyfan i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio a'i chlywed yn gyson yn ystod y diwrnod ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ac agweddau'r disgyblion.

Mae'r Gymraeg i'w gweld yn glir o gwmpas y dosbarthiadau ac mae yna arwyddion dwyieithog yn yr holl ardaloedd tu fewn a thu allan i'r Ysgol. Rhydd gwaith celf y disgyblion ddarlun cyfoes o'r Gymraeg yn y cyntedd a cheir darlun llawn o'r gweithgareddau Cymraeg a Chymreig ar yr addangosfeydd deniadaol ar hyd y coridorau a'r dosbarthiadau megis llwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd, gweithgareddau diwrnod Cymreig a mabolgampau'r Urdd.


Mae aelodau'r pwyllgor Cymraeg yn frwdfrydig iawn ac mae ganddynt rôl allweddol wrth sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed ar draws yr Ysgol. Rhoddir targedau personol i aelodau'r pwyllgor er mwyn sicrhau bod amryw o agweddau yn cael eu targedu ar draws yr Ysgol. Maent wedi sicrhau bod disgyblion a staff yn ymwybodol o'r apiau amrywiol sydd ar gael a dengys canlyniadau'r holiadur yn glir bod y mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio apiau Cymraeg tra'n dysgu Cymraeg. Yn ystod y gwasanaeth wythnosol, cyflwynir patrwm yr wythnos gan y pwyllgor a rhoddir sticeri a thystysgrifau 'Draig yr Wythnos' i siaradwyr Cymraeg yr wythnos. Mae aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol o'r manteision amrywiol sydd o blaid dysgu'r Gymraeg ac ymdrechant i ledaenu'r neges gyda'u cyd-ddisgyblion. Gwnant ymdrech i ddefnyddio'r Gymraeg pan yn chwarae gêmiau a phêl-droed yn ystod amser chwarae a chymhelir y Siop Ffrwythau'n ddyddiol ganddynt gan bwysleisio'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau dysgu'r Gymraeg ac maent o'r farn bod dysgu'r iaith yn bwysig. Maent i gyd yn darllen llyfrau Cymraeg a defnyddir y Gymraeg yn gyson mewn gwersi ymarfer corff, celf a cherddoriaeth. Mae yna gydweithio effeithiol rhwng y ddwy ffrwd a'r sector iau a hyn gyda chynllun bydis darllen yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth a rhuglder darllen disgyblion.


Mae mwy o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth ac mae hyn yn gwella'n raddol ar draws y ddau gyfnod allweddol. Maent yn mwynhau cymryd rhan yn Eisteddfod yr Ysgol lle cynhelir y cystadlaethau i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae Gorsaf Radio Bro Pedr wedi codi ymwybyddiaeth ymysg disgyblion am gerddoriaeth Cymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn aelodau o'r Urdd ac maent yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a gweithgareddau chwaraeon. Maent yn mynychu triapiau i wersyll yr Urdd Caerdydd ac ychwanega hyn yn fawr at eu mwynhad o'r Gymraeg.

Mae'r holl staff a disgyblion yn sicrhau bod y Gymraeg bob amser yn rhan o'u gweithgareddau dyddiol ac o ganlyniad, maent yn llawn haeddiannol o'r Wobr Efydd, Cymraeg Campus.

	✓	X
<b>Wedi llwyddo: Passed:</b>	✓	



# Siarter Iaith Gymraeg – Holiadur 1



# Siarter Iaith Gymraeg

## Holiadur 2 Gorffennaf 2017

